



Ymgyrchu Dras Gartrefi Clyd
Campaigning for Warm Homes

7^{fed} Mawrth 2008

Ymateb i ymchwiliad Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad i dlodi ac amddifadedd yng nghefn gwlad Cymru.

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-rd-home/tb_letter.htm

<http://tinyurl.com/3ztarh>

Ymateb i Ymgynghoriadau

Cyflwyniad

Mae National Energy Action Cymru'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar ymchwiliad yr is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yng nghefn gwlad Cymru. National Energy Action (NEA) yw'r elusen tlodi tanwydd cenedlaethol, gyda phencadlys yn Newcastle upon Tyne, a chynrychiolaeth wladaidd yng Nghymru (NEA Cymru) a Gogledd Iwerddon. Mae NEA wedi bod yn ymwneud yn weithredol gyda'r ymgyrch i gael gwared a thlodi tanwydd yn y DG am dros 25 mlynedd. Rydym yn hyrwyddo datblygiad a hyrwyddiad gwasanaethau effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael â phroblemau gwresogi ac insiwleiddio aelwydydd ar incwm isel.

Daw'r ymgynghoriad hwn ar adeg pan fo'r nifer o aelwydydd Cymraeg mewn tlodi tanwydd wedi dyblu bron ac ar y lefelau uchaf a welwyd ers nifer o flynyddoedd o ganlyniad i gostau cynyddol ynni.

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Beth yw'r problemau tlodi tanwydd sy'n wynebu ardaloedd gwledig? Beth yw anghenion penodol ardaloedd gwledig mewn perthynas â'r mater hwn?

Mae adroddiad Llywodraeth y Cynulliad *Byw yng Nghymru* yn dangos bod 240,000 o aelwydydd tlawd o ran tanwydd yng Nghymru, yn gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar ynni. Mae tlodi tanwydd yn broblem sy'n effeithio pob rhan o Gymru ond un o'r ffactorau sy'n gwahaniaethu tlodi tanwydd oddi wrth mathau eraill o dlodi yng Nghymru yw'r ffaith ei fod mor uchel mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae ffigyrau Llywodraeth y Cynulliad yn dangos bod y crynhoad uchaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng nghanolbarth a gogledd Cymru.

Mae'n gyffredinol dderbyniol bod tri ffactor yn cael effaith ar lefel tlodi tanwydd: incwm, prisiau ynni ac effeithlonrwydd ynni annedd. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddylanwadu ar ddau o'r meysydd hyn: gwella effeithlonrwydd ynni aelwydydd a chodi incwm trwy sicrhau bod pobl yn cymryd eu hawliadau budd-daliadau.

- 1. Gwella Effeithlonrwydd Ynni.** Ar hyn o bryd, does gan 21% o holl aelwydydd Cymru ddim mynediad i brif gyflenwad nwy, y tanwydd rhataf ar gyfer gwresogi cartref, ac mae nifer o'r rhain mewn ardaloedd gwledig unig ble na fyddai cysylltu

gyda'r prif rwydwaith nwy yn debygol o fod yn ddilys. Gall y ffaith bod nifer o'r aelwydydd hyn mewn tai hŷn "anodd eu trin", gyda waliau solid sy'n anodd eu hinsiwleiddio'n ddarbodus wneud hyn yn waeth. Mae'r dewisiadau gwresogi sydd ar gael i nifer o aelwydydd - glo ac olew, yn ddrud ac yn niweidio'r amgylchedd. Mae gan ficro gynhyrchu'r potensial i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn cartrefi anodd eu trin, ond heb gymorth grant cyfalaf ni fydd aelwydydd ar incwm isel yn hawlio'r technolegau hyn. Mae'r ffaith bod tlodi gwledig yn wasgaredig yn hytrach nag wedi ei grynodedig hefyd yn creu problemau darparu gwasanaeth gan gyfyngu i ba raddau y gall rhaglenni effeithlonrwydd ynni gyrraedd cymunedau gwledig.

- 2. Mynediad i grantiau a chyngor.** Cyhoeddodd Cynulliad Cymru'n ddiweddar bod £3m o gyllid ychwanegol ar gael i helpu awdurdodau lleol i ehangu ffocws eu hymgyrchoedd hawlio, gan dargedu pobl hŷn a chyplau gyda phlant. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi y bydd gweithgor yn cael ei ffurfio i ymchwilio i'r rhwystrau y mae pobl yng nghefn gwlad Cymru'n eu hwynebu wrth hawlio budd-daliadau ac mae'n bwysig bod y gweithgor hwn yn ystyried y rhwystrau y mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn eu hwynebu yng nghefn gwlad Cymru. Mae tystiolaeth ar lafar yn awgrymu bod traddodiadau o hunan gynhaliath mewn ardaloedd gwledig yn arwain at amharodrwydd i hawlio budd-daliadau lles a mathau eraill o gymorth, er y gellir priodoli hyn yn rhannol i absenoldeb neu gyfyngiad cyngor a gwasanaethau gwybodaeth.

Ai Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Awdurdodau Lleol sy'n gallu delio orau gyda gweithgareddau gwrthdlodi? Pam?

Yn ein barn ni mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdodau Lleol ran allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Hefyd, mae angen i'r ddau gydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DG a'r Undeb Ewropeaidd i geisio datblygu agwedd cydweithiol tuag at y problemau dwfn sy'n achosi tlodi. Mae tlodi tanwydd yn faes ble mae angen i bob rhan o lywodraeth weithio gyda'i gilydd: mae rhai agweddau, fel budd-daliadau a rheoleiddio cyfleustodau, o fewn cylch gwaith Llywodraeth y DG; mae materion yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a chyngor yn feysydd sy'n cael eu hariannu a'u darparu gan Lywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol. Mae NEA Cymru wedi gweithio gyda'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu cynlluniau gweithredu cynhesrwydd fforddiadwy lleol sy'n cysylltu gweithredu lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gyda strategaethau a rhaglenni ariannu cenedlaethol. Yn ein barn ni, y ffordd orau o ymdrin â thlodi tanwydd, a phroblemau tlodi incwm, yw'r dull cydlynol hwn o weithio, yn hytrach nag agwedd wahaniaethol tuag at ddarpariaeth a chyfrifoldeb.

3 i) Pa fentrau gwrthdlodi (Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Awdurdod Lleol) ydych chi'n ymwylbodol ohonynt?

Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru un rhaglen wrthdlodi unedig sengl. Mae wedi targedu agweddau penodol o dlodi, trwy ei strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant a thlodi tanwydd. Mae polisiâu eraill ar ddatblygu economaidd, adfywiad a thai hefyd yn effeithio ar achosion a chanlyniadau tlodi. Bwriad cynllun Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd hefyd, er ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar feithrin gallu a chyfranogi yn hytrach na ffyniant economaidd llwyr. Hefyd, ychydig iawn o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf sydd i'w cael yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.

O ran tlodi tanwydd, mae gan Lywodraeth y Cynulliad Ymrwymiad Tlodi Tanwydd, sy'n cynnwys y targed, cyn belled a bod hynny'n rhesymol ymarferol, na fydd unrhyw aelwyd

yng Nghymru'n byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2018, gyda thargedau interim i gael gwared a thlodi tanwydd ymysg grwpiau agored i niwed erbyn 2010 ac mewn tai cymdeithasol erbyn 2012. Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) yw prif gyfrwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni aelwydydd. Mae HEES yn darparu grantiau rhannol (£500) wedi eu hanelu at rai dros 60 oed sydd ddim yn gymwys i dderbyn HEES neu HEES a Mwy fel arall, HEES (£2000) wedi ei anelu at deuluoedd gyda phlant dan 16, HEES a Mwy (£3,600 i £5,000) wedi ei anelu at deuluoedd unig riant gyda phlant dan 16, pobl 60 oed neu hŷn a'r rhai hynny sy'n anabl neu'n gleifion cronig. Mae deiliaid tai sydd dros 80 oed yn ddilys yn awtomatig ar gyfer HEES a Mwy.

Mae llawer o waith yn digwydd ar lefel lleol hefyd i fynd i'r afael â thlodi, yn arbennig tlodi tanwydd. Trwy gyfrwng eu gwasanaethau, mae awdurdodau lleol yn dod i gysylltiad gyda rhai o'r aelwydydd mwyaf agored i niwed a chânt eu gweld fel wyneb y "llywodraeth" yn y gymuned. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweithio gyda, ac yn aml yn ariannu, cyrff cymunedol a gwirfoddol lleol sy'n darparu'r cyngor a chefnogaeth y mae aelwydydd agored i niwed yn ddibynnol arnynt er mwyn cael eu hawliau, o ran gwasanaethau, incwm a grantiau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyllid i'r NEA i helpu i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Cynhesrwydd Fforddiadwy yn y 22 awdurdod lleol, ac mae'r mwyafrif o ardaloedd bellach wedi cytuno ar eu cynlluniau erbyn hyn.

Mae cefnogaeth hefyd ar gael i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ar ffurf cyllid gan y sector preifat trwy gyfrwng y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT). Mae CERT yn rhwymedigaeth a osodir ar gyflenwyr ynni ac mae'n golygu bod rhaid iddynt gyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon a osodir gan y Llywodraeth. Mae cyllid sylweddol ar gael; rydym yn amcangyfrif ar sail pro rata y dylai Cymru gael rhyw £28 miliwn mewn cyllid CERT ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Fodd bynnag, yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru roedd angen i awdurdodau lleol wneud mwy i gael y cyllid hwn ac rydym yn tybio nad yw Cymru'n cael ei chyfran deg o'r cyllid hwn ar hyn o bryd.

3 ii) Ydi'r polisïau gwrthdlodi hyn yn diwallu anghenion ardaloedd gwledig yn ddigonol?

Yn nhermau tlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig, fe all Llywodraeth y Cynulliad wneud mwy. Yn benodol, trwy roi mwy o bwyslais HEES ar dlodi tanwydd. Mae NEA Cymru'n gefnogol iawn o HEES ac yn cydnabod yr effaith ddefnol y mae'r cynllun yn ei gael ar filoedd o aelwydydd ar draws Cymru. Fodd bynnag, fel y mae ar hyn o bryd, nid yw gwariant HEES yn adlewyrchu ehangder daearyddol tlodi tanwydd, gyda mwy o hawliad yn ne'r wlad, er gwaetha'r crynhoad uwch o dlodi tanwydd yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Ar nodyn mwy cyffredinol, nid yw HEES yn targedu aelwydydd tlawd o ran tanwydd yn ddigonol - ar hyn o bryd dim ond un aelwyd mewn tri sy'n manteisio ar HEES sy'n dlawd o ran tanwydd. Hefyd, dim ond 54% o aelwydydd tlawd o ran tanwydd sy'n gymwys i dderbyn HEES.

Yn ein barn ni, fe all fod yna faterion penodol yn ymwneud a chymhwyster ar gyfer HEES mewn ardaloedd gwledig. Mae problemau cydnabyddedig o gyflog isel, cyflogaeth dymhorol a dros dro mewn ardaloedd gwledig. Dangosodd ymchwil gan Gyngor Defnyddwyr Cymru bod cyfradd cyflogau mewn rhai rhannau o Gymru wledig ymysg yr isaf yn y DG. Mae cyflogau isel, ynghyd â chostau ynni uwch a stoc tai o ansawdd sâl yn golygu bod tlodi tanwydd yn debygol o fod yn broblem i rai tlawd sy'n gweithio, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Efallai bod yr aelwydydd hyn yn brwydro i dalu biliau, ond gan nad ydynt yn derbyn unrhyw fudd-daliadau nid ydynt yn gymwys i dderbyn HEES.

Yn nhermau gweithredu'n lleol, mae'r broses o ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Cynhesrwydd Fforddiadwy wedi dangos bod yna lawer o ymrwymiad i fynd i'r afael â'r broblem. Fodd bynnag, y realiti yw nad oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar Awdurdodau Lleol i weithredu i fynd i'r afael â thlodi na thlodi tanwydd ac mae adnoddau cyfyng yn aml yn golygu y gall y materion hyn gael eu hesgeuluso.

4. Pa fesurau penodol yr hoffech eu gweld yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddelio gyda materion tldi yng Nghymru wledig?

Fe hoffem weld Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd agwedd mwy cyd-gysylltiedig tuag at ddelio gyda thlodi, yn cynnwys tldi gwledig a thlodi tanwydd. Un enghraifft o hyn fyddai cysylltu gwaith ar dldi plant yn benodol gyda gweithredu ar dldi tanwydd; yn yr un modd gellid gwneud cysylltiadau er mwyn gweithio ar gynhwysiad ariannol. Er mai ychydig o bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf sy'n bodoli, mae hwn hefyd yn fecanwaith posib y gellid ei ddefnyddio i gysylltu tldi tanwydd gyda rhaglenni eraill Llywodraeth y Cynulliad.

Yn ein barn ni, mae angen dirfawr i ganfod yr aelwydydd yng Nghymru wledig sy'n dlawd o ran tanwydd ond ddim yn gymwys i dderbyn help a chefnogaeth gan y cynllun HEES. Mae'r rhain yn debygol o fod yn aelwydydd pobl dlawd sy'n gweithio. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ddod o hyd i ffordd o ehangu cynlluniau effeithlonrwydd ynni fel y gallant gynnig cymorth i'r fath aelwydydd.

Mae hefyd angen i Lywodraeth y Cynulliad ddelio gyda'r broblem o fforddiadwyedd ynni i bobl sydd heb fynediad i brif gyflenwad nwy. Yn arbennig, mae angen i hyn gael ei wneud trwy gyflwyniad ehangach o dechnoleg micro gynhyrchu i aelwydydd tlawd o ran tanwydd.

5. Pa esiamplau o ymarfer da ydych chi'n ymwybodol ohonynt yng Nghymru/rhannau eraill o'r DG/tramor?

Ceir esiamplau o gynlluniau ardderchog i fynd i'r afael â thlodi tanwydd sydd wedi eu datblygu'n lleol yn awdurdodau lleol gwledig Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau yng Ngwynedd, Sir y Fflint a Cheredigion. Yn nhermau darparu cymorth i holl aelwydydd mewn tldi tanwydd, waeth beth yw'r buddiannau a hawlir ganddynt, mae prosiectau fel Cartrefi Cynnes yn Wrecsam a Chastell Nedd Port Talbot, a Warm Zones mewn ardaloedd amrywiol yn Lloegr yn cynnig model sy'n golygu bod mesurau effeithlonrwydd ynni ar gael i bawb, gyda lefel y cyfraniad at gost gwella effeithlonrwydd ynni'n seiliedig ar incwm. Efallai y gall y fath gynlluniau helpu i ddelio gyda phroblem pobl dlawd o ran tanwydd sy'n gweithio yng Nghymru wledig.